**Memorandwm Esboniadol - Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 24.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn mynegi safbwynt teg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011.

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Mawrth 2011

**Disgrifiad**

Mae Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad basio Deddfau'r Cynulliad os ceir pleidlais “ie” mewn refferendwm yng Nghymru.

Yn dilyn pleidlais "ie" yn y refferendwm a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011 ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r ddeddfwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer Deddfau'r Cynulliad wedi'i llunio. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â ffurf a dull o lunio a chyhoeddi Breinlythyrau sydd i'w llofnodi gan y Frenhines â'i llaw ei hunan o dan y Sêl Gymreig i ddynodi ei Chydsyniad i Fil a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Gorchymyn hwn yn ofynnol er mwyn galluogi i Gydsyniad Brenhinol gael ei roi i Filiau'r Cynulliad.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

Bwriedir cyflwyno Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011 i'r Cyfrin Gyngor ym mis Mawrth a bydd yn agored wedyn i gael ei ddirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad. Bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei osod gerbron y Cynulliad ac yn cael ei gyflwyno i'r Cyfrin Gyngor yn ddwyieithog.

**Y Cefndir Deddfwriaethol**

Mae Rhan 4 o Adran 116 (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan y caiff Ei Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Cyngor, wneud darpariaeth ynglŷn â ffurf a dull o lunio a chyhoeddi Breinlythyrau sydd i'w llofnodi yn llaw Ei Mawrhydi ei hun i ddynodi ei Chydsyniad i Fil a basiwyd gan y Cynulliad. Mae Adran 116 (4) yn datgan bod offeryn statudol sy'n cynnwys Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan isadran (3) yn agored i gael ei ddirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad. Ynghlwm, ceir copi o'r offeryn y cyfeiriwyd ato uchod.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae’r Gorchymyn hwn yn y Cyfrin Gyngor ynghyd ag adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn rhan o’r ddeddfwriaeth sydd ei hangen er mwyn i Gydsyniad Brenhinol gael ei roi i Fil a basiwyd gan y Cynulliad. Mae’r gorchymyn cychwyn drafft sy’n dod â darpariaethau Deddfau'r Cynulliad i rym wedi’i osod yn y Cynulliad ac os caiff ei gymeradwyo fe ddaw i rym ar 5 Mai (a thrwy hynny fe ddaw darpariaethau Deddfau'r Cynulliad i rym ar y dyddiad hwnnw). Y nod yw y daw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011 i rym ar 5 Mai hefyd fel y bo’r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn ei lle er mwyn i’r Cynulliad a etholir ym mis Mai 2011 basio Biliau’r Cynulliad.

Diben y ddeddfwriaeth hon yw gwneud darpariaeth ar gyfer creu Breinlythyrau a fydd, o gael eu llofnodi yn llaw Ei Mawrhydi ei hun, yn dynodi ei Chydsyniad i Fil a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011 hefyd yn manylu ar y dull o lunio a chyhoeddi Breinlythyrau, yn ogystal â nodi eu ffurf, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae Adran 115(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol pan hysbysir y Clerc fod Breinlythyrau o dan y Sêl Gymreig wedi eu llofnodi gan Ei Mawrhydi â'i llaw ei hunan i ddynodi Ei Chydsyniad. Mae'n ofynnol, felly, cyn i unrhyw un o Filiau’r Cynulliad allu cael Cydsyniad Brenhinol, bod y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer creu Breinlythyrau yn cael ei wneud.

Dim ond Biliau ar gyfer Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru y mae Breinlythyrau sy'n cael eu creu o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn yn berthnasol.

**Ymgynghori**

Holwyd y canlynol am eu barn wrth baratoi'r offeryn hwn:

- Clerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Y Llyfrfa, mewn perthynas â chyhoeddi
- Swyddfa'r Goron, mewn perthynas â geiriad Breinlythyrau
- Swyddfa Cymru

Ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r gorchymyn hwn gan na ddisgwylir unrhyw effaith ar y sectorau preifat na gwirfoddol nac ychwaith ar lywodraeth leol.